# Sut i wneud mandala o ddeunyddiau naturiol

Edrychwch ar y fideo yn y Cwtsh Creadigol

Defnyddiwch ddeunyddiau fel hen flodau, dail yr hydref, brigau, mes, aeron, cerrig, rhedyn ac ati. Rwy'n hoffi mynd i chwilio am ddeunyddiau ar daith gerdded yn y wlad ond dyma erthygl am y gyfraith:
https://britishlocalfood.com/foraging-british-law/







Dewiswch eitem ddiddorol am y canol. Yna dechreuwch osod eich eitemau eraill ar bwys y canol yn gyntaf. Symudwch oddi wrth y canol wrth ychwanegu rhagor o bethau nes creu patrwm cylch.
Gwnewch hyn ar eich pen eich hun neu gyda ffrindiau.
Gallwch ei adael i eraill ei weld, mewn parc, ysbyty neu ardd.
Gallwch dynnu llun o'ch gwaith a'i uwchlwytho i greu calendr i'w roi i’ch ffrindiau.
https://www.mixbook.com/photo-calendars-home

#CwtshCreadigol